**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: MA/RE/00340/25

5 Awst 2025

Annwyl Benaethiaid Cynllunio,

**Datganiad Polisi Cynllunio Interim ar Ddatblygiad mewn Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a nodyn atgoffa am Gyfyngiadau ar Hawliau Datblygu a Ganiateir mewn afonydd ACA**

Yn 2021 cyhoeddodd CNC dargedau ansawdd dŵr wedi'u diweddaru ar gyfer afonydd a ddynodwyd fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). Mae'r targedau cryfach, yn enwedig mewn perthynas â ffosfforws, yn parhau i gael goblygiadau o ran penderfynu ar geisiadau cynllunio mewn dalgylchoedd yr effeithir arnynt. Gall amrywiaeth o fygythiadau a phwysau effeithio ar afonydd ac mae eu dynodi'n ACA yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol penodol o dan Gyfarwyddeb Cyngor 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt ("y Gyfarwyddeb Cynefinoedd") a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017/1012 ("y Rheoliadau Cynefinoedd").

Rhwng 2022 a 2024, cynhaliwyd cyfres o uwchgynadleddau Llygredd Afonydd, gyda'r nod o ddal cwmpas yr heriau a gyflwynir gan lygredd maethynnau a sbarduno gweithgarwch cydgysylltiedig yn nalgylchoedd ACA.

Mae dau ddiben i'r llythyr hwn:

- cyhoeddi datganiad polisi cynllunio interim ar Ddatblygu mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yr effeithir arnynt gan Ffosfforws a chyfeirio at ganllawiau cynllunio ymarferol DTA Ecology; ac,
- atgoffa rhanddeiliaid a gwneuthurwyr penderfyniadau o'r rhyngweithio rhwng hawliau datblygu a ganiateir a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Rheoliadau Cynefinoedd a amlinellir yn TAN 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009).

**Datganiad Polisi Cynllunio Interim a Chanllawiau Cynllunio**

Cytunwyd ar gynllun gweithredu *'Lleihau pwysau ar ddalgylchoedd afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) i helpu i gyflenwi tai fforddiadwy: Cynllun Gweithredu* Cynllun gweithredu uwchgynhadledd llygredd afonydd | LLYWODRAETH yn yr ail uwchgynhadledd ym mis Mawrth 2023 ac roedd yn cynnwys y gofyniad i baratoi canllawiau cynllunio

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ymarferol i gydgrynhoi hyfforddiant cychwynnol ar reoliadau cynefinoedd ac ansawdd dŵr a ddarparwyd ym mis Mehefin a Hydref 2022. Yn benodol, roedd y Prif Weinidog yn awyddus i sefydlu llwybr lle gallai tai fforddiadwy ddod ymlaen yn unol â'r Gyfarwyddeb a'r Rheoliadau Cynefinoedd.

Comisiynwyd DTA Ecology, fel yr arbenigwr blaenllaw ym mhob mater sy'n ymwneud â chymhwyso'r Gyfarwyddeb a'r Rheoliadau Cynefinoedd, i baratoi'r canllawiau ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r canllawiau ar gael yma: [Ddatblygiad mewn afonydd ardaloedd cadwraeth arbennig (ACA): canllawiau cynllunio | LLYW.CYMRU]

Mae'r canllawiau yn cynnwys tri safbwynt polisi (WG1, 2 a 3) ac yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o ymarfer ymgysylltu wedi'i dargedu â rhanddeiliaid, cydnabuwyd y dylai'r safbwyntiau hyn ffurfio rhan o bolisi ac y dylid eu cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru (PPW). Mae'r testun canlynol yn cynrychioli datganiad polisi cynllunio interim. Y bwriad yw bod y testun hwn yn cael ei fewnosod fel adran newydd ym Mhennod 6 pan fydd Polisi Cynllunio Cymru yn cael ei ddiweddaru nesaf.

***Datblygu mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yr effeithir arnynt gan ffosfforws***

*6.6.30 Mae ffosfforws yn cyrraedd afonydd o ystod eang o ffynonellau sy'n cynnwys cael ei ollwng o weithiau trin carthffosiaeth, tir fferm a systemau ffermio, a'i ollwng o ddraeniau preifat. Rhaid ceisio sicrhau bod llai o faethynnau yn mynd i mewn i afonydd o ystod eang o sectorau ledled dalgylchoedd afonydd SAC. Mae'n angenrheidiol bod pob sector yn chwarae eu rhan wrth gyfrannu at y camau angenrheidiol i leihau lefelau ffosfforws yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonydd Cymru er mwyn diogelu amgylchedd naturiol yr afonydd.*

*6.6.31 Mae cyflawni targedau amcanion cadwraeth o fewn afonydd ACA yn ganolog i gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys asiantaethau statudol, weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod camau i leihau llwyth maethynnau yn nalgylchoedd afonydd ACA o dan ddull cyfran deg yn cael eu nodi a'u cyflawni yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Er budd cenedlaethau'r dyfodol, rhaid i gyrff cyhoeddus wneud defnydd cymesur o bwerau statudol i gyflawni camau angenrheidiol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Gall awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr ddibynnu ar ddull cyfran deg lle gellir dangos hyn.*

*6.6.31 Mae dull cyfran deg yn dibynnu ar gydweithrediad effeithiol sy'n digwydd yn ymarferol ar draws sectorau. Mae hyn yn ei dro yn ehangu'r opsiynau adfer a lliniaru sydd ar gael ar draws dalgylchoedd i fynd i'r afael ag amcanion ansawdd dŵr a chadwraeth ac ar yr un pryd yn galluogi diwallu anghenion ehangach cymunedau. Bydd gan y Byrddau Rheoli Maethynnau rôl amhrisiadwy wrth nodi'r mesurau a'r opsiynau angenrheidiol sydd wedi'u dangos o dan ddull cyfran deg ac sy'n angenrheidiol i gyflawni amcanion cadwraeth. Yn ei dro, bydd hyn yn cynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau, yn ogystal â'r rhai sy'n cynnig datblygu.*

*6.6.32 Mewn ardaloedd yr effeithir arnynt, gellir datblygu drwy nifer o lwybrau [FN to guidance will be added]. Yr hyn a ffefrir yw cymryd dull integredig o reoli, adfer a lliniaru, gydag Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn gweithio gyda'i gilydd fel cyfanrwydd cydlynol. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall fod angen rhywfaint o hyblygrwydd wrth ystyried cynigion datblygu er mwyn adlewyrchu amgylchiadau a allai fod yn bresennol mewn unrhyw ddalgylch penodol. Ym mhob achos, fodd bynnag, bydd angen dangos pam na ddylid cymryd dull integredig, fel yr amlinellir ym mharagraff 6.6.34-36. Ni fydd dibynnu ar fesurau tymor byr wrth gynnig datblygiad yn ffordd effeithiol o reoli ac adfer afonydd ACA a chyflawni amcanion cadwraeth.*

*6.6.33 Pan fo datblygiad newydd yn dibynnu ar drwydded bresennol sy'n cynrychioli risg o ddirywio, a bod y penderfynwr yn fodlon bod camau priodol (camau eraill) i osgoi dirywiad o dan Erthygl 6(2) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd wedi'u diogelu, gall penderfynwr ddibynnu ar y camau sydd i'w cymryd wrth gymhwyso'r prawf uniondeb o dan Erthygl 6(3) o'r Gyfarwyddeb (rheoliad 63 o'r Rheoliadau Cynefinoedd) mewn perthynas â'r cynnig newydd. Gellir ystyried y camau i'w cymryd (camau priodol) yn 'ddiogel' os:*

- *Yr amcangyfrifwyd i ba raddau y mae angen gwelliannau pellach i osgoi dirywiad o weithgareddau presennol/parhaus (cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl ar sail yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd);*

- *Yw’r 'camau priodol' sydd i'w cymryd wedi'u nodi'n glir a'u cysylltu â mecanwaith cyflawni priodol, gan wneud defnydd cymesur o bwerau statudol fel sy'n angenrheidiol i hwyluso cyflawni cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol;*

- *Oes amserlen glir ar gyfer gweithredu 'camau priodol' i'w cymryd gyda cherrig milltir cynnydd cyflawni cysylltiedig tuag at gyflawni targedau ffosfforws yr amcan cadwraeth;*

*6.6.34 Pan fo datblygiad newydd yn dibynnu ar gymryd camau, rhaid sefydlu cyd-ddibyniaeth i sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer datblygiad newydd yn amodol ar gyflawni cerrig milltir cynnydd cysylltiedig.*

*6.6.35 Wrth ystyried effeithiau sy'n gysylltiedig â llygredd maethynnau, mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng mesurau i gyflawni gwaith rheoli/adfer a'r rhai y gellid dibynnu arnynt er mwyn lliniaru. Ni ddylai lliniaru dan arweiniad datblygwyr gynnwys cyflawni mesurau sydd eisoes wedi'u nodi fel mesurau rheoli/adfer a’i gysylltu â mecanwaith cyflawni priodol neu a allai beryglu gwaith rheoli/adfer yn y dyfodol trwy erydu capasiti'r dalgylch ar gyfer ymyriadau yn y dyfodol. Gellir integreiddio lliniaru â gwaith rheoli ac adfer lle mae cyfraniadau datblygwr:*

- *yn cynyddu graddfa, maint neu gwmpas mesurau rheoli/adfer arfaethedig; neu*

- *yn cyflymu'r broses o gyflwyno mesurau rheoli/adfer arfaethedig y tu hwnt i'r hyn a fyddai'n cael ei gyflawni fel arfer, lle mae'r amserlenni gweithredu presennol mewn perygl o ddirywiad ecolegol ystyrlon yn y cyfamser.*

*6.6.37 Nid yw mabwysiadu dull integredig yn caniatáu ar gyfer masnachu effeithiau cadarnhaol mesurau adfer o dan erthygl 6(1) na chamau i osgoi dirywiad o dan erthygl 6(2) er mwyn gwrthbwyso neu liniaru effeithiau datblygiad arfaethedig o dan erthygl 6(3). Yn hytrach, mae angen lliniaru pellach i sicrhau nad yw datblygiad newydd yn tanseilio cyflawni neu effeithiolrwydd mesurau a chamau o'r fath.*

*6.6.38 Mewn rhai amgylchiadau gall rhesymau hanfodol er budd cyhoeddus godi mewn perthynas â chynnig datblygu. Bydd angen ystyried achosion o'r fath ar eu rhinweddau a bydd angen pwyso'r budd cyhoeddus sy'n cael ei wasanaethu yn erbyn y budd cadwraeth sy'n cael ei roi mewn perygl.*

*06.6.39. Er bod y polisi hwn a'r canllawiau cysylltiedig yn ymwneud yn benodol â ffosfforws, mae'r dull eang yn debygol o fod yn berthnasol i faethynnau eraill.*

## Cyfyngiadau ar Hawliau Datblygu a Ganiateir

Mae lefelau maethynnau yn nalgylchoedd afonydd ACA yn effeithio ar hawliau datblygu a ganiateir (PDRs). Efallai na fydd datblygwyr yn gallu defnyddio rhai PDRs a roddwyd gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (GPDO) oherwydd y cyfyngiadau a osodir gan reoliadau 61-65 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Mae datblygwyr yn gyfrifol am wirio a fydd eu datblygiadau yn effeithio'n andwyol ar uniondeb y safle Ewropeaidd cyn iddynt ddechrau'r datblygiad.
Mae hawliau datblygu a ganiateir sy'n peri pryder arbennig yn cynnwys:

- Amaethyddiaeth, a allai alluogi newid yn y math o dda byw neu gynnydd yn y niferoedd;
- Gwersylla, carafanau, ysgolion, colegau, prifysgolion ac ysbytai lle gallai'r datblygiad olygu cynnydd mewn defnydd gan fwy o bobl o'r tu allan i ddalgylch afon ACA.

Mewn dalgylchoedd afonydd lle mae'r egwyddor niwtraliaeth maethynnau yn berthnasol, rhaid i ddatblygwyr wirio gyda CNC na fyddai'r defnydd o PDRs ar gyfer y math hyn o ddatblygiadau yn effeithio'n andwyol ar uniondeb y safle.  Os deuir i'r casgliad na fydd effaith sylweddol, yna gellir ystyried bod barn CNC ar y mater yn bendant.  Oni bai bod CNC yn diystyru bod effaith sylweddol debygol, yna rhaid i ddatblygwyr gael cymeradwyaeth ymlaen llaw i fwrw ymlaen gyda’r datblygiad hwnnw gan yr awdurdod cynllunio lleol sy'n gorfod cwblhau Asesiad Priodol ac ymgynghori ymhellach â CNC.

Disgrifir y gweithdrefnau ar gyfer ymgynghori â CNC a cheisio cymeradwyaeth ymlaen llaw yn Atodiad 5 o TAN 5 Cynllunio a Chadwraeth Natur.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning